# Y Pwyllgor Menter a Dysgu

**EL(3) 17-08 (p11) : 12 Mehefin 2008**

## Cyflwyniad Sgiliau er Cyfiawnder i ymholiad Pwyllgor Menter a Dysgu Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gyfraniad economaidd addysg uwch.

### Rhagair

1.Mae'r cyflwyniad nesaf wedi'i baratoi ar gyfer ymholiad y Pwyllgor Menter a Dysgu i gyfraniad economaidd addysg uwch gan Sgiliau er Cyfiawnder.

2.Sgiliau er Cyfiawnder yw'r Cyngor Sgiliau Sector sy'n ymdrin â phob cyflogwr, cyflogai a gwirfoddolwr sy'n gweithio yn y system cyfiawnder Prydeinig. Mae ôl-troed Sgiliau er Cyfiawnder yng Nghymru'n cynnwys 24,600 o gyflogeion, sy'n 2% o boblogaeth gyfan Cymru. Mae hyn yn cynnwys Cyfiawnder Cymunedol; Gwasanaeth Llysoedd; Gofal Gwarchodol yn gweithredu yn y sectorau cyhoeddus a phreifat; Plismona a Gorfodi'r Gyfraith a'r Gwasanaethau Erlyniad.

### Y Cytundeb Sgiliau Sector

3.Mae'r Cytundeb Sgiliau Sector yn asesiad o'r blaenoriaethau a'r angen am sgiliau yn y sector Cyfiawnder. Mae'n enwi ac yn esbonio'r anghenion yn y sector am fwy o sgiliau a gweithlu mwy fel bod cyflogwyr, darparwyr dysgu a Sgiliau er Cyfiawnder yn gallu gweithredu ar y cyd i ymdrin â hyn. Y bwriad yw cyflwyno i gyflogwyr a chyflogeion yn y sector Cyfiawnder ddull o ganfod beth yw'r angen am sgiliau a chynhyrchiant, yr hyn y bydd yn rhaid iddynt ei wneud i ddiwallu'r anghenion hynny, a sut y byddent yn cydweithio gyda darparwyr hyfforddiant a sgiliau fel bod y galw am sgiliau'n gallu siapio natur y cyflenwad yn uniongyrchol.

4.Cwblhaodd Sgiliau er Cyfiawnder ei Asesiad o Wariant Safonol yng Nghymru ym mis Tachwedd 2007 ac, yn dilyn hynny, cytunodd ar gytundeb partneriaeth gyda'r CCAUC sydd wedi'i amlinellu isod fel y sail ar gyfer perthynas barhaus rhwng y Sector a'r Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru. O ganlyniad i'r cytundeb yma, mae partneriaethau newydd yn datblygu gyda sefydliadau unigol.

### Cytundeb Sgiliau Sector CCAUC a Sgiliau er Cyfiawnder

| Amcan Allweddol | Sut i Weithredu'n Benodol |
|---|---|
| Datblygu Graddau Sylfaen | Rhoi gwybodaeth/gwaith ymchwil i ddarparwyr AU gan gyflogwyr am yr angen am Raddau Sylfaen, a chynnwys posibl y cyrsiau - yn enwedig yn ymwneud â Phlismona |
| Sicrhau bod mwy o bobl yn gwybod am Sgiliau er Cyfiawnder mewn AU a sicrhau bod y cyfathrebiad yn dda rhwng Sgiliau er Cyfiawnder a darparwyr AU | Y CCAUC i helpu gyda broceriaeth cysylltiadau rhwng Sgiliau er Cyfiawnder a Sefydliadau Addysg Uwch i drafod y blaenoriaethau a ganfuwyd drwy'r Asesiad o Wariant Safonol a chyfleoedd ar gyfer gweithredu ar y cyd. |
| Sicrhau bod rôl Sgiliau er Cyfiawnder wedi'i gyfathrebu'n dda ac yn effeithiol. | Sgiliau er Cyfiawnder i baratoi disgrifiad byr o'r Asesiad o Wariant Safonol fydd yn amlygu rôl Sgiliau er Cyfiawnder ac unrhyw faterion, blaenoriaethau neu weithredoedd sy'n berthnasol i AU ac y gellir gwahodd Sefydliadau AU i ymateb iddynt. CCAUC i ddosbarthu'r disgrifiad i gysylltiadau allweddol mewn Sefydliadau AU. |
| Datblygu ymwneud effeithiol y cyflogwr gydag AB ac AU | Gweithio gyda fforwm y cyflogwyr i roi gwybodaeth am y ddarpariaeth sgiliau perthnasol sy'n angenrheidiol yn y Sector Cyfiawnder ac i gyfathrebu unrhyw ganfyddiadau i'r CCAUC i'w dosbarthu i gysylltiadau perthnasol mewn sefydliadau AU. |
| Ymateb i anghenion newidiol y ddarpariaeth AU o ganlyniad i bwerau sydd wedi'u datganoli ymhellach h.y. cyfuniad posibl pedwar Heddlu Cymru. | Gweithio gyda'r rheolwyr datblygiad a dysgu yn y Sector a chyfathrebu'r holl ddatblygiadau i CCAUC i'w dosbarthu i gysylltiadau perthnasol mewn Sefydliadau AU. |

| | |
|---|---|
| Datblygu Gradd mewn Plismona yn Benodol i Gymru wedi'i seilio ar Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ac ar yr IPLDP (Rhaglen Gychwynnol mewn Datblygiad a Dysgu Heddlu) | Gweithio gyda'r Heddluoedd yng Nghymru a'r Sefydliadau AU i ddatblygu gradd gadarn sydd wedi'i llunio i ddiwallu anghenion gweithredol y sector yn y dyfodol. |

5. Dangosodd Asesiad o Wariant Safonol Sgiliau er Cyfiawnder bod y mwyafrif mawr o gyflogwyr yn y sector Cyfiawnder yn darparu hyfforddiant ar gyfer eu staff - mae mwy na 85% drwy Brydain yn dibynnu ar ddarpariaeth o fewn y gweithle. Mae'r ffocws ar hyfforddiant gan fwyaf ar lefel mynediad i staff arbenigol fel Swyddogion Heddlu neu Swyddogion Prawf a hyfforddiant cychwynnol yn amrywio o ychydig wythnosau i ddwy flynedd. Mae amser, arian, adnoddau a chynllunio sylweddol wedi'u canolbwyntio ar ymsefydlu a hyfforddiant profiannwr gyda'r sector.

### Yr ymwneud rhwng Sefydliadau AU a'r Sector Cyfiawnder

### a.Prifysgol Morgannwg

Mae Prifysgol Morgannwg wedi sefydlu Canolfan Morgannwg ar gyfer Gwyddorau'r Heddlu sy'n grwp amlddisgyblaethol o staff academaidd sy'n addysgu ac yn gwneud gwaith ymchwil mewn materion yn ymwneud â'r heddlu. Mae'r holl ddysgu a datblygiad cychwynnol i Swyddogion Heddlu De Cymru wedi'i ddarparu ym Mhrifysgol Morgannwg gan gymysgedd o Swyddogion Heddlu sy'n gweithio gyda Staff y Brifysgol. Mae pob aelod newydd o'r heddlu'n gwneud gradd sylfaen dwy flynedd mewn Astudiaethau'r Heddlu. Mae hefyd gynllun penodi lefel uwch i'r myfyrwyr hynny sy'n astudio ar y cwrs gradd Astudiaethau Heddlu llawn amser lle mae myfyrwyr yn cofrestru fel Cwnstabliaid Gwirfoddol yn ystod eu hastudiaethau ac, ar ôl graddio, gallent ddod yn swyddogion heddlu cymwysedig llawn.

Mae Prifysgol Morgannwg wedi bod yn arloesol yn ei dull o ateb anghenion a gofynion mwy na dim ond y gwasanaeth heddlu. Er enghraifft, mae ein Hasesiad o Wariant Safonol yn dangos bod problem gyda diffyg hyfforddiant ar gyfer gwaith aml-asiantaethol. O'r flwyddyn nesaf ymlaen, bydd modiwl ar "Ddelio gyda Phobl Bregus" wedi'i gynnig a bydd swyddogion heddlu, ymwelwyr iechyd, gweithwyr cymdeithasol a nyrsys yn dod at ei gilydd ar gyfer tiwtorialau ar y cyd. Dylai hyn annog gweithio aml-asiantaethol yn naturiol.

Mae Prifysgol Morgannwg hefyd dan gontract i ddarparu hyfforddiant cychwynnol i Gwnstabliaid Heddlu Gwirfoddol a hyfforddiant cyn-mynediad i swyddogion heddlu posibl y dyfodol mewn cydweithrediad â Heddlu De Cymru.

### b.UPSI – Athrofa Gwyddoniaeth rhwng yr Heddlu a Phrifysgolion

Mae'r Athrofa Gwyddoniaeth rhwng yr Heddlu a Phrifysgolion (UPSI) wedi'i sefydlu i wella a datblygu proffesiynoldeb y gwasanaeth heddlu. Bydd yn gwneud hyn drwy wella'r dystiolaeth sydd ar gael i hysbysu'r ffordd y caiff plismona ei ffurfio, ei ddarparu a'i ddatblygu.

Mae'r UPSI wedi'i seilio ar gydweithrediad arloesol rhwng Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Morgannwg (drwy Ganolfan Morgannwg ar gyfer Gwyddorau'r Heddlu) a Heddlu De Cymru. Mae'r bartneriaeth yma'n galluogi'r Athrofa i:

Ddefnyddio fframweithiau cysyniadol a methodolegau ymchwilio arloesol wrth archwilio'r sialensiau mwyaf argyfyngus sy'n wynebu'r heddlu.

Defnyddio ei agwedd rhyngddisgyblaethol fel bod y dystiolaeth ddiweddaraf o waith ymchwil yn hysbysu hyfforddiant a datblygiad aelodau newydd yr heddlu, yn ogystal â staff sydd yno'n barod, yn uniongyrchol.

Cynllunio atebion newydd i broblemau, eu gweithredu a'u profi'n drwyadl, fel bod asiantaethau plismona'n gallu darparu gwasanaethau sy'n ateb anghenion bob cymuned.

Gwella'r addysg a'r hyfforddiant i bersonél yr heddlu er mwyn hybu pobl i wneud penderfyniadau sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth.

### c.Prifysgol Fetropolitan Abertawe

Mae Prifysgol Fetropolitan Abertawe wedi bod yn gweithio'n agos iawn gyda Heddlu De Cymru i ddatblygu rhaglen ar gyfer Arweinyddiaeth a Rheolaeth - yn y lle cyntaf ar gyfer y bobl hynny oedd wedi eu dyrchafu'n ddiweddar i swydd sarsiant ac arolygydd. Mae'r rhaglen yma'n cael ei datblygu ar y cyd rhwng Heddlu De Cymru, SMU a Sgiliau er Cyfiawnder a bydd wedi'i seilio ar Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a'i mapio drosodd i gymhwyster ffurfiol. Mae'r prosiect yn dal i fod ar y cam datblygu ar hyn o bryd ond mae wedi bod yn esiampl glir iawn o'r ffordd y gall Prifysgol ddatblygu model darparu hyblyg er mwyn cyflawni anghenion gwasanaeth heddlu gweithredol.

Mae Prifysgol Fetropolitan Abertawe wedi sicrhau hefyd bod lle ar gael i Heddlu De Cymru seilio eu Huned Datblygiad Proffesiynol Gorllewinol yn y Brifysgol.

### d.Coleg Prifysgol Cymru Casnewydd a Phrifysgol Bangor

Coleg Prifysgol Cymru Casnewydd oedd un o ddim ond pedwar Sefydliad AU ym Mhrydain i wneud cais llwyddiannus i ddarparu'r Radd

a'r Diploma (NVQ4) mewn Astudiaethau Prawf. Mae modd darparu ac arholi'r cwrs yma drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae wedi'i ddatblygu fel ymarfer ar y cyd gyda Phrifysgol Bangor - sy'n darparu'r cwrs i fyfyrwyr yng Ngogledd Cymru.

### e.Prifysgol Llanbedr Pont Steffan

Mae Prifysgol Llanbedr Pont Steffan wedi dangos diddordeb yn y cynllun Peilot Dysgu Gweithredol, oedd yn torri tir newydd, a redodd Sgiliau er Cyfiawnder yng Nghymru. Cafwyd trafodaethau gyda'r Brifysgol i ddatblygu Dysgu Gweithredol ymhellach yn y sector Cyfiawnder ac i archwilio achrediad ffurfiol.

### Casgliad

6.Mae Sgiliau er Cyfiawnder wedi nodi bod y CCAUC yn talu am astudiaeth ddichonoldeb ar ddatblygiad y gweithlu ar hyn o bryd, ac edrychwn ymlaen at ganlyniad yr astudiaeth yma i hysbysu datblygiadau yn y dyfodol mewn darpariaeth ddysgu lefel uwch yn y gwaith. Byddai Sgiliau er Cyfiawnder yn pwysleisio bod angen i sefydliadau AU gynnwys Cynghorau Sgiliau Sector yn ffurfiol yn y broses hon, er mwyn parhau'r cydweithredu agos yr ydym yn ei fwynhau ar hyn o bryd gyda CCAUC a gyda'r sector AU yng Nghymru.

**Richard A Jones**
**Rheolwr Gwladol Cymru**
**Sgiliau er Cyfiawnder**
**richard.jones@skillsforjustice.com**